**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Health and Social Care Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

2 Ebrill 2015

Annwyl Jocelyn,

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 10 Rhagfyr 2014, rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â diwygio gwasanaethau iechyd, yn sgil argymhelliad a wnaed gan eich Pwyllgor yn ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16.

Ysgrifennais at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 10 Rhagfyr 2014 i ofyn am eglurhad ynghylch a fydd y cyllid ychwanegol sydd ar gael ar gyfer 2014-15 a 2015-16 yn cael ei ddefnyddio i gynnal lefelau gwasanaeth presennol a mynd i'r afael a'r diffygion a ragwelir yng nghyllidebau byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, neu a fydd yn cael ei ddefnyddio i weithredu modelau newydd, mwy arloesol ar gyfer darparu gwasanaethau.

Yn ei ymateb, a ddaeth i law ar 3 Chwefror 2015 (copi o'r ohebiaeth wedi'i atodi), mae'r Gweinidog yn datgan:

> "defnyddir yr arian ychwanegol a gyhoeddwyd yn y gyllideb ddrafft, ochr yn ochr â'r gyllideb gofal iechyd yn ei chyfanrwydd, i barhau i

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA
Ffôn / Tel: 0300 200 6354
E-bost / Email: SeneddIechyd@Cynulliad.Cymru/
SeneddHealth@Assembly.Wales
Twitter: @seneddiechyd / @seneddhealth
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh

> ddarparu'r gwasanaethau diogel o ansawdd uchel a ddisgwylir gan ein cleifion. Ar yr un pryd, bydd hyn yn sicrhau bod y gyllideb gyfan yn cael ei defnyddio mewn modd sy'n cyfrannu at ail-lunio a diwygio'r ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau iechyd er mwyn sicrhau ein bod mewn sefyllfa fwy cynaliadwy."

Mae'r Gweinidog yn nodi bod disgwyl i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau amlinellu'r diwygiadau a'r newidiadau y maent yn bwriadu eu gwneud mewn perthynas â'u cynlluniau integredig tair blynedd. Mae'n datgan bod yn rhaid i'r cynlluniau hyn ddangos yn glir sut y bydd y diwygiadau yn cyfrannu at ddiwallu amcanion polisi a'r broses o sicrhau bod gwasanaethau cynaliadwy yn cael eu darparu er mwyn cael cydsyniad Llywodraeth Cymru. Adnewyddwyd canllawiau i'r perwyl hwn ac fe'u cyhoeddwyd ar 31 Hydref 2014.

Mewn tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd i'r Pwyllgor er mwyn llywio'r gwaith craffu cyffredinol ac ariannol a wnaed ganddo mewn perthynas â'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd ar 19 Mawrth 2015, dywedodd y Gweinidogi'r cynlluniau integredig tair blynedd drafft ar gyfer y cyfnod rhwng 2015-16 a 2017-18 gael eu cyflwyno ar 30 Ionawr. Ar hyn o bryd, mae'r cynlluniau yn mynd drwy broses o asesu a herio, a nododd y Gweinidog ei fod yn bwriadu gwneud cyhoeddiad ar y cynlluniau a gymeradwywyd a'r camau nesaf i'w cymryd erbyn diwedd mis Ebrill 2015.

Bydd y Pwyllgor yn cynnal sesiwn arall o waith craffu cyffredinol ac ariannol gyda'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog ar 17 Mehefin 2015. Bydd y sesiwn honno'n canolbwyntio yn bennaf ar waith craffu ariannol. Mae'n bosibl y bydd

tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidogion a thrawsgrifiad o'r sesiwn honno yn cynnwys manylion pellach am y maes hwn, ac efallai y byddwch yn dymuno tynnu sylw eich Pwyllgor atynt maes o law.

Yn gywir

**David Rees AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Wedi'i hatodi: Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 3 Chwefror 2015